## GAN FOD DAU GAMPWS GWYRDD AR YMYL UN DDINAS FYWIOG,

# DYMA'CH CAM CYNTAF I *Ddyfodol Disglair*




**MAE ABERTAWE:**

4 awr o Fanceinion, Bangor a'r Rhyl
3 awr o Ddolgellau a Llundain
2 awr o Aberystwyth a Bryste
Awr o Gaerdydd

Mae'n hawdd cyrraedd meysydd awyr Caerdydd a Bryste o Abertawe hefyd!

### PENRHYN GŴYR

Traethau baner las – o gildraethau hamddenol, sy'n berffaith i adolygu ynddynt, i fannau gwych am farbeciws ar y traeth. Gŵyr yw'r maes chwarae delfrydol ar gyfer anturiaethau awyr agored.

### Y MWMBWLS

Beiciwch, lonciwch neu grwydrwch ar hyd y promenâd o Barc Singleton yr holl ffordd i'r pentref glan môr hynod, hen ffasiwn hwn... a'r hufen iâ gorau yn y dref.

### CAMPWS PARC SINGLETON A CHAMPWS Y BAE

Gwyddonwyr a gwyddonwyr cymdeithasol, arlunwyr ac ieithyddion, meddygon uchelgeisiol a pheirianwyr ysbrydoledig; ni waeth ar ba gampws rydych chi arno, gallwch gael profiad o'r cyfleusterau gwych i fyfyrwyr yn y Bae ac ym Mharc Singleton.

### Y MARINA A'R ARDAL FOROL

Pan fydd y môr yn galw, does unman gwell. Dewch fan hyn am noson fawr, bariau a hyd yn oed brecwastau 'bore wedyn' mwy o faint.